**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**15fed Tachwedd 2007**

# YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU AR FFRAMWAITH MESUR PERFFORMIAD A DANGOSYDDION PERFFORMIAD ARFAETHEDIG AR GYFER AWDURDODAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU

**Adroddiad gan Dawn Docx**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** I gyflwyno, er cymeradwyaeth, ymateb drafft gan yr Awdurdod i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fframwaith Mesur Perfformiad a Dangosyddion Perfformiad arfaethedig newydd ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

## Cefndir

**2.** Fel rhan o'r Fframwaith Genedlaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub, mae Llywodraeth y Cynulliad, trwy weithio gyda rhanddeiliaid yn cynnwys y tri gwasanaeth tân ac achub, wedi llunio fframwaith mesur perfformiad ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru, sy'n cynnwys pedwar grŵp o ddangosyddion perfformiad.

## Cyflwyniad

**3.** Cyflwynir y fframwaith rheoli perfformiad a dau grŵp o ddangosyddion perfformiad arfaethedig – Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Dangosyddion Craidd – am sylwadau yn yr ymgynghoriad sy'n parhau hyd Rhagfyr 20fed 2007. Er gwybodaeth i'r aelodau mae copi o'r ddogfen ymgynghorol ynghlwm fel Atodiad 2.

**4.** Mae'r ymgynghoriad yn gwahodd yr Awdurdod i wneud sylwadau ar dri cwestiwn allweddol sy'n gysylltiedig â'r fframwaith arfaethedig, ac ar fanylion y dangosyddion arfaethedig.

## Gwybodaeth

**5.** Mae ymateb drafft gan yr Awdurdod ynghlwm.

## Argymhellion

**6.** Fod Aelodau yn ystyried ac yn cymeradwyo'r ymateb drafft yn Atodiad 1 ac yn awdurdodi'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) i gyflwyno'r ymateb cymeradwyedig ar eu rhan i Gangen y Gwasanaethau Tân ac Achub cyn Rhagfyr 20fed 2007.